1.83

# CAN ALARUS,

YN RHODDI HANES

# Y DYGWYDDIAD DYCHRYNLLYD

A GYMERODD LE

NGWAITH GLO MR. W. THOMAS,

YN

## LLETY SIENCYN, gerllaw ABERDAR,

AWST Y 10fed, 1849,

***Pryd y torodd y Damp allan ac y collodd tri ar ddeg a deugain o ddynion eu bywydau trwy losgi a mogu.***

Cenir ar *Diniweidrwydd.*

***Enwau ac Oedran y rhai a laddwyd:—***

Edward Llewelyn, 53, William Jones, 27, Llewelyn Rees, 11, John Thomas, 39, John Jones, 25, Evan Edwards, 32, John Edwards (ei fab) 8, Thomas Phillips, 23, David Davies, 36, a'i ddau fab, un yn 15 a'r llall yn 13, David John, 22, W. T. Davies, 50, Thomas Evans, 51, John Jones, 22, John Morgan, 53, a'i ddau fab, 26 a 17 oed, Morgan John David, 40, a'i fab, 19, William Griffiths, 60, a'i ddau fab, 2?, a 15 oed, William Williams, 54, a'i ddau fab, Esa, 21 a John, 15, William Williams, 46, a'i ddau fab, Llewelyn, 19, a Morgan, 13, Ebenezer Thomas, 32, Jenkin Llewelyn, 40, Evan Thomas, 23, William Rowland, 11, Benjamin John, 27, William Thomas, 11, Rees Jenkins, 23, Thomas Smith, 12, Thomas Abraham, 24. William Marks, 33, Ebenezer Edwards, 12, Thomas Evans, 51, Thomas Thomas, 66, Nathaniel Phillips, 25, John Davies, 28 John Morris, 26, Thomas Thomas, 25, Stephen Rees, 30, Isaac Jenkins, 13, David Howells, 34, Ebenezer Davies, 14, William Jones, 35, Benjamin Sims, 10, John John, 32.

Trwm yw'r newydd tra mawr niwed
  Sydd i'w glywed nos a dydd,
Mae yn Aberdâr, yn Sir Forganwg,

Angau creulon, gelyn dynion,
  A'i saethau llymion sydd yn lladd,
Nid yw yn arbed boneddigion
  Mwy na'r dynion isel radd.
Trwy un-rhyw ffordd, gwybyddwn hyny,
  Y cawsom ni ein geni i gyd,
Rhyw fil o ffyrdd sydd gan yr angau
  I'n gyru i'r anfarwol fyd:
Rhai gan goed ac erchyll greigiau,
  Rhai dan y ddaear fyddar faith,
Rhai mewn dŵr, a rhyw glefydau,
  A rhai mewn tân orphenai eu taith.

Prydnawn dydd Gwener, Awst y ddegfed,
  O mor drymed cofio'r tro,
Ger Aberdâr, yn Llety Siencyn,
  Y *Damp* a daniodd mewn Gwaith Glo,
Un fil wyth cant a naw a deugain
  O oedran cyfan Iesu cu,
Oherwydd hyn y gwelir dagrau
  Yn llifo'r llawr mewn llawer lli'.

Y Coliars aethant yn y borau
  I mewn i'r gwaith, medd geiriau gwir,
Heb feddwl mai'r diwrnod hwnw
  Y caent ddyoddef garw gur,
Y *Damp* a daniodd yno'n rhywfodd,
  Yr hyn a barodd boen a briw,
Pum deg a thri trwy'r ddamwain hyny
  A ga'dd eu gyru o dir y byw.

Er iddynt geisio cael dihangfa,
  'Roedd angau a'i saethau yn agoshau,
A hwythau yn ymyl bro marwolaeth,
  A phob drws gobaith wedi ei gau.
'Roedd nerth y tan a'r *sulpher* creulon
  Yn mogu'r dynion yn y fan,
A rhai o honynt ga'dd eu llosgi,
  O! 'r fath galedi ddaeth i'w rhan.

Dych'mygaf glywed llais y dynion

XE05191427

Yn gorfod marw yn ddiymwared,
O mor galed oedd y gwaith;
Gobeithio eu bod yn ngwyneb angau
A'u gweddi'n daer ar Iesu cu,
Gan ddweyd, O dwg ni yn y diwedd
I'r hyfryd wlad nefolaidd fry.

Pan ddaeth gwybodaeth trwy'r gym'dogaeth
'Roedd pawb yn rhedeg yno'n syn,
Mewn tristwch calon gyda'u gilydd,
Pan glywsant am y newydd hyn;
Er gwneud eu goreu i'w cynnorthwyo,
Nid oedd modd i'w safio mwy.
Yr angau glas a'i gledd dinystriol
A roddodd iddynt farwol glwy.

Mae hanes i ryw 'chydig nifer
Gael dod o'r dyfnder fynu'n fyw,
Fe gawsant hwy 'r tro hwn achubiaeth
Trwy dre'n ddoeth rhagluniaeth Duw,
'Rwyf yn gobeithio gwnant hwy gofio
Mai Duw a ddarfu eu safio 'n siwr,
Mae ef yn gadarn—gall ein cadw
Yn ngrym y tân a dyfnder dwr.

'Roedd yr olygfa hon yn ddigon
I dori calon unrhyw ddyn,
Wrth wel'd y cyrff ar ol eu codi
Ar ben y pwll yn wael eu llun;
Rhai'n cwynfan am berth'nasau mwynion,
Rhai am gyfeillion gwiwlon gwâr,
Ni fu erioed fath boen a dychryn
O fewn i Ddyffryn Aberdâr.

Mae'r gwragedd gweddwon yn galaru
Ar ol eu gwŷr yn oer eu cwyn,
A llefain mae y plant amddifaid,
Gan ddweyd, Collasom dadau mwyn;
Rhai'n wylo hefyd am eu brodyr,
Hir iawn y cedwir hyn mewn co',
Mae pawb yn dweyd mewn llais tosturi,

Fe roed eu cyrff mewn daear oerddu,
  Lle cant hwy bydru yn y pridd,
Nes byddo'r angel yn rhoi galwad
  Yn more'r adgyfodiad ddydd;
Gobeithio iddynt gael maddeuant,
  Eu dwyn i fwyniant nefoedd wen,
Lle cant hwy ganu byth heb dewi,
  Yn nghwmni Crist fu ar y pren.

Mae tadau a mamau yn wylo beunydd,
  A brodyr a chwiorydd mwyn,
Cyfeillion, plant ymddifaid mwynion,
  Mae'n doriad calon gwrando'u cwyn,
Os gellwch, peidiwch a galaru,
  Gwell troi mewn gweddi ddwys at Dduw,
Mae'i air yn dweud fod ffrind y weddw
  A Thad yr ymddifaid eto'n fyw.

Fe gofir am y ddamwain yma,
  Dros amryw o flynyddoedd maith,
Wrth feddwl am yr holl eneidiau
  Ga'dd fyn'd i dragwyddaldeb maith;
Rhai aeth y boreu fel arferol,
  I'w gwaith mewn iechyd oll i gyd,
A chyn y nos yr un diwrnod,
  Caent fyned i'r anfarwol fyd.

Gweddiwn bawb yn ddyfal beunydd,
  Ar Grist am grefydd yn ei grym,;
Ymdrechwn fod yn hollol barod,
  Cyn delo dyrnod angau llym;
Os byddwn felly nid rhaid ofni,
  Na chawn ni wynlyd nefoedd wen,
I ganu'r anthem yn ddiorphen,
  Yn ngwlad y wledd mewn hedd, Amen.

*Dewi Santesau, a'i cânt.*